SENEDD!

Syniadau

Senedd

24/02/2020

Myfyrwyr yn Diffodd UCM

Dylai Prifysgol Aberystwyth ymuno â rhaglen gynaliadwyedd Myfyrwyr yn Diffodd UCM er mwyn lleihau'r defnydd o drydan a dŵr yn neuaddau'r brifysgol, ynghyd â chynyddu ailgylchu!

Swyddog Gyfrifol: Llywydd yr Undeb

Cyflawnwyd Gan: Beth Wright

Manylion:

Mae allyriadau carbon yn sgil llosgi tanwydd ffosil yn achosi newidiadau na ellir eu hadfer i'r amgylchedd, felly mae'n hanfodol lleihau allyriadau cyn i'r sefyllfa fyd-eang waethygu. Er mwyn i Brifysgol Aberystwyth ddod yn garbon niwtral erbyn 2025, rhaid i fyfyrwyr fynd ati'n weithredol, yn ddyddiol ac ar raddfa eang.

Cynllun cynaliadwyedd yw Myfyrwyr yn Diffodd UCM sy'n helpu myfyrwyr mewn neuaddau prifysgol i leihau'r defnydd o ynni a dŵr, yn ogystal â chynyddu cyfraddau ailgylchu, i gyd trwy gynnal cystadlaethau rhwng neuaddau ym mhob prifysgol.

Yn ystod y 12 mlynedd diwethaf, mae'r cynllun wedi atal bron i 15,000 tunnell o CO2 rhag cael eu hallyrru, yn ogystal â hyfforddi dros 7,000 o lysgenhadon myfyrwyr y DU. Ar hyn o bryd mae 16 o brifysgolion y DU wedi'u rhestru ar http://studentswitchoff.org/ fel rhai sy'n cymryd rhan, a chredaf y dylai Aberystwyth ddod yn rhif 17!

Mae cost y cynllun yn amrywio gan ddibynnu ar faint o fyfyrwyr sydd mewn neuaddau, ond rwy'n credu y bydd yr arian a arbedir ar filiau trydan a dŵr, ynghyd â darparu agwedd gyhoeddusrwydd amgylcheddol newydd i'r brifysgol, o fudd cyffredinol i'r brifysgol.

Beth Wright